# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen




## Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect ‘Ardal Ni 2035’ ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy’n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy’n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i’r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy’n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi’r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a’r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **10** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ogwen.

**1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy’r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o’r ymatebion i’r cwestiynau yn **atodiad 3.**

DRAFT

## 2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 5 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 5 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 4 |
| Potensial ynni adnewyddol a phrosiectau amgylcheddol | 4 |
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 3 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau a thimau chwaraeon | 3 |
| Dynodiad Safle Treftadaeth y Byd | 3 |
| Darpariaeth addysg ac ysgolion da | 2 |
| Wedi casglu arian i gael sawl diffibriliwr | 2 |
| Tir da sy'n rhoi posibiliadau economaidd | 1 |
| Ardal ddiogel a saff | 1 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus da | 1 |
| Twristiaeth yn dod a budd economaidd i'r ardal | 1 |
| Cadwyn Ogwen - prosiect wedi creu hwb yn yr ardal | 1 |
| Adnoddau a mwynderau o fewn pellter teithio cyfleus | 1 |
| Pryniant Cae'r Felin - safle canolog yn y Pentref | 1 |

DRAFT

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Economi leol – diffyg adnoddau a siopau yn cau | 4 |
| Pryderon am dwristiaeth anghynaladwy | 4 |
| Problemau yn ymwneud a pharcio | 4 |
| Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | 3 |
| Problemau yn ymwneud â cheisiadau Cynllunio | 2 |
| Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 2 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 2 |
| Gormod o fflatiau gosod yn yr ardal | 2 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 2 |
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 2 |
| Diffyg gwaith a swyddi gwerth uchel | 2 |
| Dim digon o sylw i'r ardal gan y Cyngor a sefydliadau | 2 |
| Prisiau tai yn codi yn sgil dynodiad Safle Treftadaeth y Byd | 1 |
| Band eang / cysylltiad we wael | 1 |
| Tlodi yn yr ardal | 1 |
| Biwrocratiaeth yn ei gwneud yn anodd i gael grantiau i fudiadau lleol | 1 |
| Atyniadau ddim yn dod a budd i'r dref | 1 |
| Diffyg presenoldeb yr heddlu | 1 |
| Cwrt Tenis newydd yn yr Ysgol ddim yn dod a budd i'r gymuned | 1 |
| Anghenion gofal a phoblogaeth yn heneiddio | 1 |
| Llifogydd | 1 |
| Rhwystrau rhag gwerthu trydan hydro | 1 |
| Ail gartrefi / tai haf | 1 |

DRAFT

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Bro Ogwen am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Datrys problemau ffyrdd gwael a thraffig | 4 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, di-blastig, pwyntiau gwefru | 4 |
| Twristiaeth gynaliadwy er mwyn cael y budd gorau i gymunedau e.e. manteisio ar Safle Treftadaeth y Byd | 3 |
| Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc | 2 |
| Gofod canolog i gymdeithasu | 2 |
| Gwell rheolaeth parcio ar gyfer ymwelwyr a phobol leol | 2 |
| Trefniadau monitro ac atal llifogydd yn eu lle | 2 |
| Gwella darpariaeth siopau / unedau manwerthu | 2 |
| Mwy o gydweithio i ddatrys problemau | 2 |
| Gwneud hi'n hawdd i grwpiau lleol gael cefnogaeth grantiau | 1 |
| Gwell darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus | 1 |
| Datrys problemau cyffuriau | 1 |
| Rhagor o gamerâu CCTV | 1 |
| Parc chwarae yn lleol | 1 |
| Gwell cyfathrebu rhwng Cynghorau Cymuned a'r Cyngor | 1 |
| Adeiladau ysgolion angen sylw | 1 |
| Angen ystyried datblygiadau tai a chynllunio yn ofalus gan wrando ar y gymuned | 1 |
| Cydweithio efo Cyfoeth Naturiol Cymru i gael budd o goedwigaeth yr ardal | 1 |
| Gofod swyddfa i'w llogi i'r rhai sy'n gweithio o adref | 1 |

DRAFT

## 5. Cwestiynau ychwanegol

**5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?**

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ogwen:

- Cyngor Gwynedd
- Partneriaeth Ogwen
- Ynni Ogwen
- Canolfan Gymunedol Tregarth
- Heddlu
- Ysgolion
- Merched y Wawr
- Parc Cenedlaethol
- Cwmni Adfywio Abergwyngregyn (ARC).
- Cymdeithasau Tai
- Clwb Criced a Bowlio
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Cymru
- Neuadd Ogwen
- Clybiau chwaraeon
- Urdd Gobaith Cymru
- Cynghorwyr
- Fforwm Busnes
- Ynni Anafon
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prifysgol Bangor
- Clwb Rygbi Bethesda

DRAFT

**5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?**

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma ym Mro Ogwen:

- Gwaith ymgynghori trylwyr gan Bartneriaeth Ogwen yn 2020 oedd yn gofyn cwestiynau tebyg iawn i'r hyn sydd yn cael ei ofyn fel rhan o Ardal Ni 2035. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd gosod cyfeiriad clir - ar ffurf Theory of Change - i raglen waith y Bartneriaeth ei hun ac nid fel templed ar gyfer rhaglen waith adfywio mwy cyffredinol yn yr ardal (fel sy'n fwriad yn Ardal Ni). Mae Prif Swyddog Partneriaeth wedi rhannu canlyniadau'r ymgynghoriad yma (sef "Adroddiad Ymchwil Cymunedol Dyffryn Ogwen 2020"), ond mae'n bwysig iawn nad ydym ni'n defnyddio dim heb gydnabyddiaeth lawn o'r adroddiad hwn a chofio beth oedd ei brif bwrpas.

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi ym Mro Ogwen:**

- Cynhaliwyd sgwrs yn Bethesda gyda sawl grŵp ar y cyd - Partneriaeth Ogwen; Clwb Rygbi Bethesda; Clwb Criced Bethesda; Neuadd Ogwen. Nid oedd fformat y sgwrs ar union yr un patrwm a'r sgyrsiau ymgynghori eraill oherwydd statws gwaith Partneriaeth Ogwen (P.O) ym Methesda. Nid oedd ardal Abergwyngregyn yn disgyn o fewn ardal ymgynghori P.O. ond mae'r ardal honno o fewn ardal "Ogwen", Ardal Ni 2035.

- Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio mwy ar osod blaenoriaethau yn Nyffryn Ogwen i'r dyfodol yn hytrach na "Pethau da" a "Dim cystal". Rhai o'r pethau pwysig (mwy penodol) i'w nodi o'r sgwrs oedd: -
    1. Yr angen i ffurfio economi werdd drwy ddatblygu'r gwaith trafnidiaeth wyrdd sydd eisoes ar waith yn yr ardal.
    2. Dylid canolbwyntio ar ddatblygu'r ardal i'r dyfodol ar sail "localism" a "foundational economy" drwy fentrau cymdeithasol lleol, yn hytrach na disgwyl am gwmnïau mawr i leoli yn yr ardal i roi hwb i'r economi leol. Mae'r agwedd yma yn un sy'n bodoli eisoes yn strategaethau cyfredol Llywodraeth Cymru ac yn un hefyd sy'n adlewyrchu dymuniad trigolion yr ardal. (Roedd 87% o'r rhai wnaeth ymateb i holiadur P.O. yn credu hyn)
    3. Dylid ymateb yn well i gyfleoedd yn y maes twristiaeth a gwneud hynny mewn ffordd sy'n perchnogi twristiaeth yn yr ardal. Yn hyn o beth, dylid creu cynnig mwy atyniadol mewn ffurf llwybrau cerdded gwell trwy'r ardal... yn yr ystyr eu bod yn cael eu brandio'n fwy effeithiol. (Llwybrau Treftadaeth ac ati) ac yn cysylltu hefo'i gilydd yn well. Hefyd, mae cyfle i greu safleoedd ar gyfer camperfans a gwersylla. Mae ymateb yn y ffordd yma yn sicrhau bod yr elw o dwristiaeth yn aros yn yr ardal. (*Nodwyd y bydd P.O. yn penodi Swyddog Marchnata Twristiaeth yn ystod 2022 ac y bydd y rôl yma yn ymdrechu i fynd i'r afael â rhai materion o'r fath).
    4. Mae cyfle da i greu hybiau i bobl weithio'n lleol yn lle eu bod nhw'n gorfod defnyddio ceir i deithio allan o'r ardal i weithio. Mae hyn yn ddatblygiad naturiol o'r newid agwedd at weithleoedd sydd wedi ymddangos yn sgil Covid. Mae Neuadd Ogwen, Cefnfaes a'r Clwb Rygbi yn eithaf amlwg fel llefydd lle gallai hyn ddigwydd.
    5. Rhoddwyd pwyslais trwm ar bwysigrwydd CYDWEITHIO agos rhwng prif grwpiau'r ardal i'r dyfodol. Fel bod pawb yn wynebu i'r un cyfeiriad. Yn hyn o beth, cyfeiriwyd at drefn sydd yn ei lle ar hyn o bryd yn ardal Blaenau Ffestiniog lle mae cwmni bro'r ardal yn gyfrwng i weithredu fel fforwm i 15 o fentrau cymdeithasol lleol i drafod a rhannu profiadau. Awgrymwyd y byddai creu fforwm tebyg yn Nyffryn Ogwen yn ddefnyddiol dros ben.

- Mae'r sylwadau yma wedi ei gofnodi yn y dadansoddiad ond mae mwy o fanylion am y pwyntiau hyn uchod.